

Ymchwiliad y Pwyllgor Cyllid i effaith amrywiadau mewn treth incwm genedlaethol ac is-genedlaethol – gwybodaeth ychwanegol

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid ar 12 Mawrth 2020, cytunodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd i ddarparu manylion nifer yr enillwyr cyfradd uwch yng Nghymru a gyflogir yn y sector cyhoeddus. Mae'r nodyn hwn yn cynnwys yr wybodaeth y gofynnwyd amdani.

Mae'r ffigurau manwl diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud a 2016-17. Yn y flwyddyn honno, amcangyfrifir bod 116,000 o dalwyr treth incwm uwch neu gyfradd ychwanegol a fyddai wedi talu Cyfraddau Treth Incwm Cymru (CTIC). O fewn y cyfanswm hwnnw, roedd 27,300 neu 23% yn y sector cyhoeddus. O edrych ar dalwyr cyfradd ychwanegol yn unig, roedd tua 3,800 yn destun CTIC, ac roedd 700 neu 19% o'r rheini yn y sector cyhoeddus¹.

Yn 2016-17 byddai elfen cyfradd uwch CTIC wedi codi £244m, y byddai £ 57m neu 23% ohono wedi dod o weithwyr y sector cyhoeddus. Byddai'r elfen cyfradd ychwanegol wedi codi £ 42m, y byddai £ 3m neu 7% ohono wedi dod o weithwyr y sector cyhoeddus¹.

Nodiadau:

Ceir brasamcan o'r sector cyhoeddus yma gan ddefnyddio Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol O (Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol), P (Addysg) a Q (gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol).

Ni fydd pob unigolyn sy'n gweithio yn y diwydiannau hyn yn gweithio i'r sector cyhoeddus. Er enghraifft, mae sefydliadau yn y sectorau addysg ac iechyd sydd y tu allan i'r sector cyhoeddus. Er hynny, dyma'r brasamcan gorau sydd ar gael.

Mae'r dadansoddiad yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael, Arolwg CThEM o Incwm Personol 2016-17. Disgwylir i ddata 2017-18 fod ar gael yn ddiweddarach eleni.

Y cyfraddau treth ar gyfer 2016-17 oedd:

| Cyfradd treth | Band incwm | Cyfradd treth |
|--------------------|-------------------------|---------------|
| Lwfans personol | £11,000 | 0% |
| Cyfradd sylfaenol | Dros £11,000 i £43,000 | 20% |
| Cyfradd uwch | Dros £43,000 i £150,000 | 40% |
| Cyfradd ychwanegol | +£150,000 | 45% |

¹ Cyfrifir y canrannau a ddangosir gan ddefnyddio union nifer y talwyr, yn hytrach na'r ffigurau wedi'u talgrynnu a ddangosir. O ganlyniad, efallai na fydd y canrannau'n cyfateb yn union i'r ffigurau a ddangosir oherwydd talgrynnu.

Mae talwyr trethi Cymru yn cael eu hadnabod trwy eu cod post. O 2019-20, bydd talwyr CTIC yn cael eu hadnabod trwy eu cod ' C '.

Disgwylir i ddata'r Arolwg o Incwm Personol ar gyfer 2019-20 fod ar gael yn 2022.